CYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

**Cofnodion Anghyfyngedig** y cyfarfod a gynhaliwyd am 1.30 p.m. ddydd Iau 28 Tachwedd 2019 yn Ystafell Teifi, Canolfan Halliwell, Campws Caerfyrddin

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Arwel Ellis Owen
Stuart Rob
Nigel Roberts
Maria Stedman
Deris Williams

Yn gweinyddu:

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, i drafod materion neilltuedig
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Gwyndaf Tobias, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio)
Catrin Beard, Cyfieithydd
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 19.37<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD CPC ymddiheuriadau am absenoldeb gan Margaret Evans a Dr Liz Siberry. | |
| 19.38<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD CPC y datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc. | |
| 19.39<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar | CADARNHAODD CPC Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2019 fel cofnod cywir (CPC113). | |
| 19.40<br>Materion yn codi | Nid oedd unrhyw faterion yn codi. | |
| 19.41<br>Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol y Ddyletswydd PREVENT | YSTYRIODD CPC Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol y Ddyletswydd Prevent (CPC114) a'i GYMERADWYO i'w lofnodi gan y Cadeirydd cyn ei gyflwyno i CCAUC. | |
| 19.42<br>Trosolwg o'r Pwyllgor Academaidd | YSTYRIODD CPC y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd 7 Tachwedd 2019 (CPC115).<br><br>Adroddodd y DIG(A) fod y Brifysgol wedi derbyn adroddiad cadarnhaol gan yr ASA ar y trefniadau ymadael â'r bartneriaeth gydweithredol â Choleg Rhyngwladol Malvern. Tynnodd sylw hefyd at y trefniadau ymadael am bartneriaeth PC ag Ysgol Reolaeth Greenwich gan adrodd bod y myfyrwyr PC a oedd yn weddill yn Greenwich wedi'u trosglwyddo i gampws Llundain. | |
| 19.43<br>Trosolwg Archwilio a Risg | YSTYRIODD CPC y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 30 Medi 2019 (CPC116) ynghyd ag adroddiad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2019.<br><br>Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r sylw a roddwyd yn y wasg yn ddiweddar i fyfyrwyr Tsieineaidd a'r cyhuddiadau o ddylanwad a rheolaeth gan y llywodraeth. Nododd hefyd y tân diweddar mewn llety myfyrwyr yn Bolton. Diweddarodd yr Is-Ganghellor y Cyngor ynghylch trefniadau PCYDDS ar gyfer myfyrwyr Tsieineaidd a gwaith agos y Brifysgol â HANBAN. Byddai myfyrwyr Tsieineaidd yn mynychu cyrsiau ar gampws Caerfyrddin yn ystod cyfnod y Nadolig. Cyfeiriodd y DIG(CaCh) at y tân diweddar yn Bolton gan adrodd fod ymateb llawn wedi'i gyflwyno i CCAUC ynghylch asesiadau a pholisïau'r Brifysgol o ran tân. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | NODODD y Cyngor fod cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei drefnu i ystyried y datganiadau ariannol blynyddol cyn eu cyflwyno i CCAUC a CHYTUNWYD y dylid hefyd drefnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor i ystyried a chymeradwyo'r datganiadau ariannol blynyddol pan fyddai'r archwiliad allanol wedi'i gwblhau. | Clerc i drefnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor |
| 19.44<br>Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio PC | DERBYNIODD CPC Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio PC (CPC117). | |
| 19.45<br>Trosolwg Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD CPC y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2019 (CPC118).<br><br>Tynnwyd sylw'r aelodau at y materion canlynol:<br><br><u>CBM</u><br>Roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi cefnogi cynnig y swyddogion y dylid rhoi ystyriaeth i integreiddio'r CBM â'r Brifysgol ehangach.<br><br><u>Cynllun Pensiwn PC</u><br>CYMERADWYODD CPC yr argymhelliad y dylai'r trefniadau llywodraethu a gweinyddu rhwng Cynllun Pensiwn PC (UWSS) a chynllun pensiwn PC Llambed gael eu huno. | |
| 19.46<br>Sefyllfa ariannol | DERBYNIODD CPC ddiweddariad ar ragolwg ariannol PC ar gyfer 2019/20 (CPC119). | |
| 19.47<br>Trosolwg o Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD CPC y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 15 Hydref 2019 (CPC120).<br><br>CYMERADWYODD CPC yr argymhellion canlynol:<br>• y byddai'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn gwneud cais i gael ei dileu'n wirfoddol fel cwmni, ac y byddai'r trefniadau manwl am hyn (yn cynnwys dosbarthu'r asedau sy'n weddill) yn cael eu cyflwyno i'w trafod ac i'w cymeradwyo gan Fwrdd y Ganolfan ar 25 Hydref 2019;<br>• y byddai'r Ganolfan yn cael ei sefydlu fel uned academaidd o fewn Athrofa Addysg a'r Dyniaethau PCYDDS dan arweinyddiaeth y Deon, gan nodi bod trafodaethau i gyflawni trosglwyddo staff wedi cychwyn; | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | • y byddai Is-bwyllgor Gwasg Prifysgol Cymru yn cael ei ddiddymu fel pwyllgor o'r Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio, Adnoddau a Llywodraethu, ac o hyn allan y dylid cynnal trosolwg o waith, cyfeiriad strategol a pherfformiad ariannol a gweithredol Gwasg Prifysgol Cymru drwy adroddiadau i'r Cyngor a phwyllgorau perthnasol a baratoir dan arweinyddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor;<br>• y dylid sefydlu pwyllgor cynghori i ymgymryd â swyddogaethau perthnasol Is-bwyllgor Gwasg Prifysgol Cymru presennol, gyda chynrychiolaeth allanol briodol a chylch gorchwyl a bennir gan Gyfarwyddwr GPC a'r Dirprwy Is-Ganghellor mewn ymgynghoriad â Chadeirydd cyfredol Is-bwyllgor GPC. Er budd parhad, dylai'r pwyllgor cynghori gynnwys cynrychiolaeth gan lywodraethwr o leiaf ar y dechrau.<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at gyfnodau mewn swydd aelodau'r Cyngor gan adrodd bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi cytuno y byddai ymarfer recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol Cyngor PCYDDS yn cychwyn yn ystod haf 2020 ac y byddai penodi aelod staff newydd ar gyfer Cyngor PC yn digwydd yn ystod 2020/21. Adroddodd y Clerc y byddai dadansoddiad sgiliau o Gyngor PC yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn. | |
| 19.48<br>Diwygiadau arfaethedig yn ordinhadau PC | CYMERADWYODD CPC y diwygiadau arfaethedig yn Ordinhadau PC fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (CPC121). | |
| 19.49<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | CYMERADWYODD CPC y camau gweithredu isod a gyflawnwyd gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor:<br><br>Cymeradwyo gweithredu dyfarniad cyflog cenedlaethol 2019-20 ar gyfer holl staff PC sydd ar y golofn 51 pwynt. | |
| 19.50<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| MATERION neilltuedig | | |
| 19.51<br>Cofnodion Cyngor PC 11 Gorffennaf 2019 | CADARNHAODD CPC gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 11 Gorffennaf 2019: | |
| 19.52<br>Cofnodion Cyngor PC 12 Tachwedd 2019 | CADARNHAODD CPC gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 12 Tachwedd 2019: | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 19.53<br>Pwyllgor Taliadau 9 Gorffennaf 2019 | DERBYNIODD CPC adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd 11 Tachwedd 2019. | |
| 19.54<br>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf | Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar 30 Ionawr 2020. | |